

Diweddariad i'r ymgynghoriad hwn

TA5 1UD, NNB Generation Company (HPC) Limited: ymgynghoriad hawlen amgylcheddol

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn a oes gennych unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r cais hwn am hawlen.

Rydym eisiau gwneud y penderfyniad gorau wrth ganiatáu. Mae gwranddo ar farnau eraill yn ein helpu ni i ystyried pryderon, neu ffactorau amgylcheddol lleol, na fyddem fel arall yn ymwybodol ohonynt.

Derbyniwyd cais gennym i amrywio hawlen gan NNB Generation Company (HPC) Limited. Fe ddechreuom ofyn am sylwadau ar y cais hwn o 15 Mawrth 2019.

Diweddariad

Rydym nawr wedi derbyn nifer o adroddiadau atodol ac wedi diweddarau gan y cwmni ers dechrau'r ymgynghoriad. Mae'r rhain nawr i gyd ar gael o fewn y Citizen Space hwn. Crynhoir yr adroddiadau atodol isod:

1. TR456 - Rhagfynegiadau Diwygiedig o Effeithiau Ardrawiad yn Hinkley Point C – 2018 Rhifyn 2 – Fersiwn 10 dyddiedig 04/04/2019

Mae hyn yn disodli Fersiwn 9 a gyflwynwyd yn wreiddiol. Mae'n edrych ar y nifer o bysgod mae'r cwmni'n credu allai gael eu dal neu ladd (ardaro) o fewn system dŵr oeri'r orsaf bŵer a'r effeithiau ar y gymuned o bysgod ym Môr Hafren. Mae Fersiwn 10 yn cynnwys eglurhad, rhywfaint o destun atodol, fformatio wedi diweddarau a rhai diwygiadau. Rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda os ydych chi angen rhagor o fanylion ar yr adrannau sydd wedi eu newid.

2. BEEMS Papur Safbwynt Gwyddonol SPP071/S. Rhagfynegiad ardrawiad gwengyn (Alosa fallax ac Alosa alosa) ar gyfer HPC rhifyn 3, Cefas Lowestoft.

Mae'r rhifyn hwn wedi ei ddiweddarau gyda'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf ar Wengyn, gan ddefnyddio data o raglen Monitro Ardrawiad Rheolaidd (RIMP) Hinkley Point B i ragfynegi'n fwy cywir y nifer o bysgod sy'n debygol o gael eu dal neu ladd. Mae'r adroddiad yn cefnogi eitem 1 uchod, ac ar y cyd maent yn darparu'r rhagfynegiadau mwyaf cyfredol o effeithiau ardrawiad pysgod yn HPC.

3. HRW 2013. Modelu Rhifol a Ffisegol o Strwythurau Mewnlfif ac Arllwysfa Hinkley Point C. Tasg 1 – Modelu ffisegol o Lifoedd ar ben y Mewnlfif (TN-10). HR Wallingford Ltd, EBR4878.

Comisiynodd EDF HR Wallingford i gyflawni amrediad o astudiaethau modelu. Dengys yr adroddiad hwn sut mae'r astudiaethau wedi dylanwadu ar ddyluniad EDF o'r strwythurau mewnlfif ac arllwysfa dŵr oeri. Mae hefyd yn dangos sut mae'r cwmni wedi asesu llifoedd tebygol ar flaen y mewnlfif.

4. TR479; Astudiaeth Olrhain Gronynnau o Gorbenwaig wedi eu Hardaro o Adfer a Dychwelyd Pysgod Hinkley Point C (HPC-DEV024-XX-000-RET-100046).

Nod yr astudiaeth hon yw dangos beth fydd yn digwydd i Gorbenwaig sy'n cael eu lladd o fewn system dŵr oeri'r orsaf bŵer. Mae'n asesu'r nifer posibl o gorbenwaig fydd yn cael eu golchi i'r lan ar hyd yr arfordir lleol a ble gallai hyn ddigwydd.

Gwybodaeth sy'n weddill

Rydym wedi gwneud cais ffurfiol i'r cwmni ein darparu â'r adroddiad atodol canlynol erbyn 24 Mai 2019 er mwyn i ni allu gwneud penderfyniad ar eu cais i amrywio hawlen:

- TR493; Effaith peidio gosod system AFD yn HPC ar weithrediad y systemau FRR HPC, Cefas (2019b).

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer EDF gan Cefas. Ei nod yw darparu gwybodaeth ar unrhyw 'effeithiau dilynol' ar y system Adfer a Dychwelyd Pysgod (FRR) o ganlyniad i dynnu'r Atalydd Pysgod Acwstig o'r dyluniad mewnllif Dŵr Oeri.

Gan nad yw'r cwmni wedi darparu'r adroddiad hwn ar ddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus byddwn yn ymestyn ein hymgyngoriad am 4 wythnos arall wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn i randdeiliaid gael cyfle i ystyried yr wybodaeth atodol ac anfon eu sylwadau atom.

Camau nesaf

Byddwn yn darparu'r adroddiad atodol hwn ar Citizen Space ac yn adolygu'r dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw sylwadau yn unol â hynny unwaith bydd y cwmni wedi darparu copi o'r adroddiad angenrheidiol i ni.

Sut y gallaf i gael gwybodaeth bellach?

Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau am y cais am hawlen hwn at psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

Am wybodaeth gyffredinol am ein proses ganiatáu gweler www.gov.uk/topic/environmental-management/environmental-permits

Am wybodaeth bellach am ein rôl wrth reoleiddio Hinkley Point gweler <https://www.gov.uk/government/collections/hinkley-point>

Sut i ymateb:

Os dymunwch gynnig sylwadau ar-lein, defnyddiwch yr offeryn ymgynghori ar-lein yng Ngofod y Bobl.

Os hoffech chi anfon eich ymateb trwy'r post, anfonwch at:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF.

Ond os byddai'n well gennych gyflwyno'ch ymateb trwy e-bost, neu os hoffech chi ofyn i fersiwn print o'r ddogfen gael ei phostio atoch chi, cysylltwch â'r Ganolfan Ganiatáu a Chefnogaeth ar 03708 506 506, neu e-bost psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

Bydd angen cyflwyno unrhyw sylwadau 4 wythnos wedi cyflwyno'r adroddiad terfynol.

customer service line
03708 506 506

incident hotline
0800 80 70 60

floodline
0345 988 1188

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth:

Byddwn yn anelu at gyhoeddi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ein swyddfa gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ni fydd unrhyw sylwadau a gyhoeddir yn cynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn. Ni fydd unrhyw sylwadau lle y mae cyfrinachedd wedi'i hawlio yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n bosibl y bydd gofyn inni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych chi wedi gofyn i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, mae'n bosibl y bydd gofyn i ni gyflwyno crynodeb ohono.

Egwyddorion yr Ymgynghoriad:

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn [Egwyddorion Ymgynghori](#) y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF.

E-bost: psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

customer service line
03708 506 506

incident hotline
0800 80 70 60

floodline
0345 988 1188